# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| Agenda | Eitem | Nodiadau | Crynodeb o'r Bleidlais | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **O Blaid** | **Yn Erbyn** | Ymwrthod |
| **Sylwadau Croesawu ac Agoriadol** | Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb a fynychodd y cyfarfod | Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb i'r cyfarfod. | | | |
| | Mae'r Cadeirydd i fod y trafod sut mae'r cyfarfod yn gweithredu. | Esboniodd y Cadeirydd sut mae'r pleidleisio yn gweithio a sut gallai fod yn wahanol i gyfarfodydd eraill. Eleni byddwn yn pleidleisio â phapurau pleidlais ar gyfer syniadau yn ystod y cyfarfod.<br>Trafododd y cadeirydd drefn yr agenda. | | | |
| **Derbyn adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr a Chyflwyno y Cyfrifon Blynyddol** | Siaradodd Bayanda (Llywydd yr Undeb) a Trish (Prif weithredwraig yr Undeb) am yr adroddiad gan yr ymddiriedolwyr. | Gellir gweld yr adroddiad yma. | | | |
| | Cwestiynau/sylwadau gan fyfyrwyr ynghylch yr adroddiad. | **Ollie Hall (CYMDEITHASAU) (ei/fe):** Sut mae'r Brifysgol yn penderfynu faint o arian i'w roi i'r Undeb?<br>**Trish:** Rydyn ni'n cyflwyno cais am yr hyn sydd ei angen arnom a dangos tystiolaeth. Mae'n rhaid i ni ei drafod a dadlau achos dros yr hyn sydd ei angen arnom.<br>**Ollie**: Oes unrhyw arian cyfreithiol rwymol?<br>**Trish**: Nac oes. O ran Undeb o'n maint, rydyn ni'n cael llawer ond mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan yn fwy. Dyma sail ein dadl. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nial Perry**: Aelod (ei/fe): beth all myfyrwyr ei wneud i gefnogi'r Undeb i sicrhau arian?<br>Trish: Ymunwch â'ch grwpiau'n iawn, hyd yn oed os ydy am ddim. Gallwn dynnu ar hyn at ein perfformiad a dangos nifer y myfyrwyr fyddai'n cael budd o'r arian. Hefyd ceisiwch ddeall natur yr Undeb a chefnogwch staff y Brifysgol i ddeall hyn. Mae lawer o gamsyniadau ynghylch pwy ydym ni. Lledaenwch y gair ynglŷn â'r effaith rydyn ni'n ei chael a llenwch Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr.<br><br>**Lydia:** Aelod:(ei/hi): Mae Undebau eraill yng Nghymru yn cynnig aelodaeth am ddim. A ddylem ystyried hyn neu leihau ein hun ni?<br>**Bayanda**: Mae'r Undebau hyn bellach yn yr un sefyllfa â ni ac nid ydynt yn cynnig hyn am ddim. Rhoddodd eu prifysgolion arian iddynt at wneud hyn - pe bai'r arian gan y Brifysgol i'w roi i ni ac ariannu hyn, fe allem ei wneud, ond mae'n annhebyg gen i y digwyddith yn fuan.<br>**Trish:** Mae'r model ariannu chwaraeon wedi newid. Roedd rhaid i chi dalu £49 ac wedyn aelodaeth ar ben hynny. Daethom i gytundeb i noddi y chwaraeon. Rydyn ni'n ei wneud heb i ni sylwi.<br>**Lydia:** Mae rhaid i ni sicrhau ein bod yn hyrwyddo fod pob myfyriwr yn aelod. | | | |
| | | **PASIWYD** | | | |
| **PENODI ARCHWILWYR** | **Bayanda (Llywydd yr Undeb) a Trish (Prif** | Cyfrifwyr a Cynghorwyr PJE - The Old Convent, - Aber - SY231EY | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **weithredwraig) i drafod yr archwilwyr.** | Esboniodd Bayanda beth mae archwilwyr yn ei wneud. | | | |
| | Cwestiynau/sylwadau gan fyfyrwyr ynghylch yr adroddiad. | Dim cwestiynau na sylwadau. | | | |
| | Pleidlais | PASIWYD | | | |
| Cymeradwyo y rhestr gysylltiadau | **Bayanda (Llywydd yr Undeb) a Trish (Prif weithredwraig) i drafod cysylltiadau.** | ○ UCM y DU 17,400, UCM Elusen = £4,350 - cyfanswm = £21,750<br>○ Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) = £6400 yn ogystal â treuliau BUCS)<br>○ Aelodaeth Advice UK = £280.00<br>○ Cyflog Byw Go iawn: £150<br>Cysylltiadau neu gynlluniau am ddim:<br>○ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) = ddim yn talu yma hyd<br>○ HALO<br>○ Cyflogwr Meddylgar<br>○ Sefydliad a Chyflogwr Cyfeillgar i Tourette (Gweithredu Tourette) | | | |
| | Cwestiynau / Sylwadau gan fyfyrwyr ar yr adroddiad | **Tempas:** Aelod: (ei/fe) o ran cyngor Cymru, a fydd rhaid i ni dalu nes ymlaen?<br>**Bayanda**: Rydyn ni'n perthyn am ddim trwy UCM.<br><br>**Tara:** Aelod (ei/hi): Beth mae HALO yn ei wneud yn penodol er budd myfyrwyr?<br>**Bayanda:** mae'n ymwneud â staff yr Undeb yn fwy Mae'n galluogi i'n cyflogwyr wybod na fydd gwahaniaethu yn eu herbyn am y ffordd y maent yn gwisgo eu gwallt. | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Estyniad i Dymor Ymddiriedolwyr** | Pleidlais | PASIWYD | | | |
| | Cynigydd | **Bayanda**: Ceir yr esboniad ar syniad hwn ar yr agenda.<br><br>Esboniodd Bayanda bwy yw bwrdd yr ymddiriedolwyr a phwy sy'n rhan o'r bwrdd. Caiff pob ymddiriedolwr allanol ei recriwtio ar sail sgil a phrofiad. Rydyn ni'n cynnig ymestyn tymor ymddiriedolwyr yn y swydd gan dymor arall.<br>Y rheswm dros hyn yw ein galluogi i gadw ymddiriedolwyr da. Mae gennym fwrdd anhygoel a siom fyddai ei golli. Mae hefyd yn ddrud recriwtio rhai newydd. Byddai'n lleddfu costau ar y foment. | | | |
| | Araith yn erbyn | Neb yn erbyn | | | |
| | Cwestiynau / Esboniadau gan fyfyrwyr | **Ollie Hall:**Y Senedd (ei/fe) Pwy sydd ar fwrdd yr ymddiriedolwyr?<br>**Bayanda**: 5 swyddog llawn amser, 2 fyfyriwr (un is-radd ac un ôl-radd) ac yna 5 allnol o'r enw Ryan Beasley, Alan Roberts, Debra Croft, Jon Allsopp a Daniel Fow.<br><br>**Alex:** Y Senedd: (eu/nhw): Oes costau ynghlwm â'r ymddiriedolwyr - beth yw'r broses recriwtio?<br>**Bayanda**: Mae modd mynd at asiantaeth a gostith ryw £5 i'w wneud. Byddwn ni'n mynd ati fel cyfweliad a chais swydd arferol. Mae'r costau oherwydd lleoliad Aberystwyth.<br>**Trish:** Gall fod yn ddrud i recriwtio trwy asiantaeth ond nid ydyn ni erioed wedi gwneud hyn ond efallai daw adeg pan fydd rhaid. Mae hyn yn ymwneud â dau ymddiriedolwr ar y foment. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nial:** Aelod (ei/fe): Sut mae asesu pwyllgor da?<br>**Bayanda**: Mae gennym fatrics o'r hyn sydd ei angen ar fwrdd. Byddwn yn edrych ar y bylchau a'u hasesu. Os oes ar ymddiriedolwr eisiau gwneud tymor arall ond nid oes galw am ei arbenigedd, gall y bwrdd bleidleisio dros beidio ag ymestyn y tymor.<br>Aelod (di-enw): oes unrhyw wiriadau i weld a ydynt yn cyflawni eu swydd?<br>**Bayanda**: Oes, bob 4 blynedd.<br><br>Aelod (di-enw): Sut gall myfyrwyr ddwyn ymddiriedolwyr yn atebol?<br>**Bayanda:** Ymddiriedolwyr yw'r Swyddogion Llawn Amser felly mae modd i chi ein dal ni i gyfri os ydych chi o'r farn fod rhywbeth y dylai'r bwrdd ei wneud.<br>**Trish:** Mewn egwyddor, nid ydynt yn atebol yn ddemocrataidd i fyfyrwyr ond iddynt eu hunain a'r comisiwn elusennol. Nid oes modd democrataidd i'w gorfodi i wneud rhywbeth. Waeth os nad oes eisiau rhywbeth ar fyfyrwyr, gallant ei wneud os oes angen - nid yw'n digwydd yn aml a dim ond pa fo angen dybryd. Mae modd ei godi yn y Cyfarfod Cyffredinol neu yn y Senedd neu ei drafod gyda swyddogion ond mae'n wahanol i atebolrwydd democrataidd.<br><br>**Lewis:** Aelod (ei/fe) sut ydyn ni'n gwybod nad ydynt yn cadw ei gilydd ar y bwrdd oherwydd eu bod yn ffrindiau a'u bod wirioneddol yn dal ei gilydd yn atebol?<br>**Bayanda**: Etholir 58% o'r bwrdd am hynny, gallwn dynnu sylw at yr ymddygiad hyn.<br><br>**Mariam:** CA: (ei/hi): Sut mae pleidlais ddiwedd tymor yn gweithredu? | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bayanda:** Mae rhaid i'r bwrdd gytuno ar eu cadw ymlaen am ail neu drydydd tymor. Ni fyddai pob ymddiriedolwr yn cael tri thymor. pedair blynedd yw hyd tymor.<br><br>**Henry:** Aelod (ei/fe): Ai dyma'r broblem eu bod yn y swydd ar yr un pryd cyn hired â'i gilydd neu yn dechrau ar adegau gwahanol?<br>**Bayanda:** Ar hyn o bryd, maent wedi dechrau ar adegau gwahanol ac rydyn ni wedi recriwtio gyda bwlch mawr fel na fyddant i gyd yn ymadael ar yr un pryd.<br><br>**Nial:** Aelod (ei/fe): os caiff ei basio, a gawn bleidleisio dros ei newid wedyn?<br>**Bayanda**: Gellir dod â fe yn ei ôl i'r Cyf Cyff nesaf os oes eisiau.<br><br>**Ollie Hall:** (CYMDEITHASAU) (ei/fe) Fyddai modd i ni ei hyrwyddo i bobl yn Aberystwyth yn unig?<br>**Trish:** Ni fyddai recriwtio yn Aberystwyth yn arbed llawer o arian a recriwtio y bobl orau bosib yw'r syniad. I gael elusen dda, rhaid cael bwrdd da.<br><br>**Tara:** Aelod (ei/hi) Mae un o'r ymddiriedolwyr yn trwsio undebau - beth mae hyn yn ei ddweud am ein hundeb?<br>**Bayanda:** Dyna ei arbenigedd yn fwy na dim. Mae wedi bod yn rhan o gymaint o wahanol undebau, mae'n fuddiol cael yr wybodaeth hon. | | | |
| | Pleidlais | PASIWYD: 102 | 73 | 26 | 3 |
| **Lleihau nifer y swyddogion etholedig cyflogedig llawn amser** | Cynigydd | **Bayanda Vundamina**: Ceir esboniad ar y syniad hwn ar yr agenda. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **( a elwir hefyd yn ymddiriedolwyr sy'n swyddogion yn ôl y cyfansoddiad a'r atodiadau) i 4 swydd.** | | **Bayanda:** Gwnaed hyn yn sgil ymgynghoriadau â myfyrwyr a staff.<br>Y rheswm dros leihau, rydyn ni'n ei ystyried ers 2016. Yn 2016, caed ailstrwythuro staff mawr ond bryd hynny, nid oedd yn addas i newid y swyddogion.<br>Buom yn gweithio gydag asiantaethau allanol ar adolygiad, ond ni chytunom â hwy gan na weithiodd er budd ein hundeb.<br>Rydyn ni wedi cael llawer o ymgynghoriadau, a dangosodd fod ar bobl eisiau 4 swydd glir sef yr hyn sydd gennym nawr heb y llywydd.<br>Mae'n glir fod y swyddi hyn yn addas i ni ar gyfer y dyfodol.<br>Penderfynom ar enwau llywydd Cymraeg i gofleidio dwyieithrwydd. | | | |
| | Araith yn erbyn | Ni siaradodd neb yn erbyn y syniad hwn. | | | |
| | Cwestiynau/Esboniadau gan Fyfyrwyr | **Lewis: Aelod (ei/fe) Beth yw swydd bresennol y Llywydd a phwy a'i wnaiff ar ôl?**<br>**Bayanda:** Y llywydd yw'r prif lefarydd ar ran yr Undeb, cadeirydd bwrdd yr ymddiriedolwyr, ac iddo themâu amgylcheddol a blaenoriaethau eraill. Cawn bleidleisio dros rai wedyn ond caiff eu trosglwyddo i'r swyddi eraill. Ee y pwyllgorau y mae'r llywydd yn eistedd arnynt yn mynd i swydd wahanol.<br><br>**Tom:** Aelod: (ei/fe) Ydy'r Llywydd yn sicrhau fod y swyddogion eraill yn cyflawni eu swyddi'n iawn?<br>**Bayanda:** Nid oes hierarchaeth rhwng swyddogion.<br>**Tom:** Pwy sy'n dal swyddogion yn atebol?<br>**Bayanda:** Y myfyrwyr a rheolwyr yr Undeb | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Alex:** SG : (eu/nhw): Yn yr ymgynghoriad, bu sôn eich bod yn edrych ar dair swydd a swydd arall ar gyfer swyddi myfyrwyr, onid yw hyn yn dal i ddigwydd?<br>**Bayanda:** Strwythur 4 swydd yn unig fyddai. Ni fyddai fawr o wahaniaeth. Roeddem yn ystyried talu swyddogion rhan amser, ond mae hyn yn caniatáu i barhau fel y mae.<br>**Alex**: Felly, ni fydd yr un swyddog cyflogedig rhan amser?<br>**Bayanda:** Na fydd.<br>**Alex:** Yn yr ymgynghoriad swyddi, dywedwyd wrthym anwybyddu y strwythur swyddogion presennol. Sut ydyn ni wedi penderfynu ar gadw'r un swyddi heb y llywydd?<br>**Bayanda**: Yn yr ymgynghoriad, bu gofyn iddynt ysgrifennu yr hyn oedd eisiau arnynt. Rhoddwyd trefn ar y rhain yn ôl themau, a daeth i'r olwg fod ar bobl eisiau am 4 grŵp.<br><br>**Rowenna**: Aelod (ei/hi): os caiff tasgau y llywydd eu rhoi i swyddi eraill, a fydd hyn yn golygu y caiff y swyddogion hyn eu talu'n fwy gan fod eu baich gwaith am gynyddu?<br>**Bayanda**: Na fydd, byddent yn cael eu talu'r un fath ond nid yw baich gwaith yn fawr o broblem. y Swyddogion sy'n penderfynu ar beth a wnânt gyda'u hamser. Ni fyddai'r baich gwaith yn ofnadwy.<br>**Rowena**: A fyddai hyn yn golygu llai o amser iddynt weithio ar eu blaenoriaethau?<br>**Bayanda**: Nid yw llawer o'r cyfarfodydd y mae'r llywydd yn eu mynych yn digwydd mor aml â hynny, cynhelir rhai 3-4 gwaith y flwyddyn yn unig. Ni ddylai gael effaith ar yr hyn y mae pobl eisiau ei gyflawni mewn blwyddyn.<br><br>**Rebbeca** Aelod (ei/hi) bwy fyddai'n siarad ar bethau ynghylch cynaladwyedd? | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bayanda:** Mae rhan gynaladwyedd y rôl yn ymwneud yn fwy â'r pethau a gafodd eu pasio yn y Senedd. Dosbarthir polisïau bob blwyddyn fel y cânt eu codi gan swyddog arall. Dim ond swydd llywydd gan fy mod i fel unigolyn wedi'i godi.<br>**Rebbeca: sut caiff ei benderfynu nawr?**<br>**Bayanda:** Polisi yw'r pethau cynaladwyedd, felly mae'n rhaid i ni ei wneud gan mai gweithio arno yw ein swydd.<br><br>**James: Aelod (ei/fe): pan ddechreuais yn y brifysgol hon, mynychais gyfarfod croesawu gan y llywydd.** Ai y llywydd yw'r unigolyn y mae'r brifysgol yn troi ato, ac os felly, pwy fyddai'n cymryd ei le?<br>**Bayanda:** Byddai hyn yn cael ei benderfynu ddechrau'r flwyddyn. Er enghraifft, mae un o'r syniadau nesaf yn ymwneud â chadeirydd bwrdd yr ymddiriedolwyr. Yr unigolyn hwn fyddai'n gwneud yr holl bethau hyn.<br><br>**Masamo:** Aelod (ei/fe) beth yw ystyr cael gwared ar y llywydd os bydd rhaid pleidleisio dros gadeirydd bwrdd yr ymddiriedolwyr. Os ceir gwared ar y swydd, pwy fyddem ni'n ei ddewis o'r 4 rôl sy'n weddill? Am hynny, beth yw ystyr cael gwared ar y llywydd?<br>**Bayanda** Nid oes digon o staff i gefnogi swyddogion a bydd yn arbed arian.<br><br>**Nial:**Aelod: (ei/fe) faint o arian gaiff ei arbed?<br>**Bayanda: pymtheg mil ar hugain.**<br><br>**James:**Aelod (ei/fe) mae cael rhywun i droi ato yn dda, ddim yn sicr a fyddai'n gweithio gyda 4 person. | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bayanda:** Os nad ydych chi'n hapus gyda chael gwared ar y llywydd yn llawn, gallech godi hyn yn y Cyf Cyff nesaf a dweud fod gennym 4 rôl ond bod yn rhaid i un fod y llywydd. | | | |
| | Pleidlais | PASIWYD - bwriwyd 103 pleidlais | 76 | 24 | 3 |
| **Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** | Cynigydd | **Bayanda Vundamina:**Ceir esboniad ar y syniad hwn ar yr agenda.<br><br>Ar gefn y polisi arall os caiff ei basio. Etholith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gadeirydd yr ymddiriedolwyr | | | |
| | Yn erbyn y syniad | Ni siaradodd neb yn erbyn y syniad hwn. | | | |
| | Cwestiynau/esboniadau gan fyfyrwyr | **Jaygo:** Aelod (ei/fe) ai myfyriwr fydd y cadeirydd?<br>**Bayanda:** Daw yn ddewis rhwng y Swyddogion Llawn Amser a gaiff eu hethol.<br><br>**Alex:** SG (eu/nhw) ai pleidlais blynyddol fydd hon?<br>**Bayanda:** Ie, bob blwyddyn. Hyd yn oed os bydd swyddog wrth y swydd am 2 flynedd.<br><br>**Tristan:** SG (ei/fe) a oes rhaid iddo fod yn swyddog cyflogedig? Pam na allai fod yn un o'r ymddiriedolwyr sy'n fyfyrwyr?<br>**Bayanda:** Mae'r swyddogion yn cael eu cyflogi'n llawn amser er mwyn sicrhau y gallant ymrwymo amser i'r swydd. Efallai na allai myfyrwyr wneud pethau ar y cyd â darlithoedd. | | | |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tara:** Aelod (ei/hi) Beth ddigwyddith os na fydd y swyddogion yn gytûn, ac nad oes ar neb mo'i eisiau?<br>**Bayanda:** Gallai pobl allanol ei wneud, ond ni chredaf y digwyddith<br><br>**Dan:**Aelod (ei/fe) a allai myfyrwyr bleidleisio dros bwy yr hoffent fod yn gadeirydd?<br>**Bayanda:** Nid yw bwrdd yr ymddiriedolwyr yn atebol i fyfyrwyr, felly nid oes angen caniatâd gan fyfyrwyr arnynt. Mae hollt democrataidd o'r bwrdd i'r undeb. | | | |
| | pleidlais | PASIWYD 107 | 93 | 11 | 3 |
| **Llesiant Swydd â ffocws** | Yn siarad ar ran opsiwn a: Llywydd Lles a Rhyddid | **Emily Morgan:**Bydd y swydd hon o fudd ymarferol i staff a myfyrwyr. Gall lles yn unig beri dryswch ymysg myfyrwyr a'u bod yn cysylltu â'r swyddog gyda gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn dangos nad yw'r swydd hon yn ymwneud â darparu cymorth iechyd meddwl a dangos fod rhyddid yn rhan naturiol o'r swydd. Llais dros fyfyrwyr, nid cynghorydd, yw lles Mae'n amddiffyn swyddogion a myfyrwyr. Nid yw'r swydd yn newid ond iddi fantais o ran cyfathrebu. | | | |
| | Yn siarad ar ran opsiwn b: Llywydd Lles | Ni siaradodd neb ar ran opsiwn b: | | | |
| | Cwestiynau / esboniadau gan fyfyrwyr | dim cwestiynau na sylwadau | | | |
| | Pleidlais | PASIWYD 108 | 59 Lles Rhyddid | 40 Lles | 9 |

# Cofnodion y Cyf Cyff 10/03/2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swydd â ffocws ar y Gymraeg ac UMCA** | Yn siarad ar ran opsiwn A: Llywydd UMCA a swyddog diwylliant Cymru | Ni siaradodd neb ar ran opsiwn a | | | |
| | Yn siarad ar ran opsiwn b: Llywydd UMCA | **Nanw (cadeirydd UMCA):**Sefydlwyd UMCA i gynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Llais dros y myfyrwyr ydym ac rydyn ni'n amddiffyn UMCA a'u hawliau.<br>Mae'r swyddog diwylliant Cymru yn tanseilio diwylliant Cymru gan mai diwylliant Cymru yw hi.<br>Mae rhai yn dadlau nad yw pawb yn aelod UMCA, ond rydyn ni'n cynrychioli pawb.<br>Mae'n gyfle i ddysgu ynghylch UMCA a'r hyn rydyn ni'n ei wneud.<br>Mae gan Fangor rywbeth tebyg i UMCA a chanddi well berthynas nag yn Aberystwyth. Byddai'n wych dangos fod y berthynas rhwng UMCA a'r Undeb yn gwella.<br>Mae UMCA wedi galw am hyn a da fyddai dangos yr hyn rydyn ni ei eisiau. | | | |
| | Cwestiynau / esboniadau gan fyfyrwyr | **James:** Aelod (ei/fe) nid yw llawer yn deall beth yw UMCA. Ni fydd llawer o bobl yn gwybod beth mae'n ei olygu.<br>**Nanw:** Byddai sicrhau fod pawb yn deall beth ydyw a beth rydyn ni'n ei wneud yn fan cychwyn i UMCA.<br><br><br>**Alex:** SG (eu/nhw) Gallai diwylliant Cymru ymwneud yn fwy â myfyrwyr Cymraeg eu hiaith/o Gymru nag UMCA yn unig, oes modd i chi esbonio pam y byddai cael gwared arno o fudd?<br>**Nanw:** Diwylliant Cymru a'i hyrwyddo yn yr Undeb yw hanfod UMCA. Mae eisoes yn rhan o'i hunaniaeth.<br>**Alex:** A oes gwahaniaeth rhwng myfyrwyr Cymraeg eu hiaith/o Gymru a diwylliant Cymru? | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nanw:** Mae hunaniaeth Cymru yn perthyn i UMCA. Nid ydyn ni'n cynrychioli siaradwyr iaith gyntaf yn unig ond y rheiny sy'n dysgu'r Gymraeg ac am ddiwylliant Cymru.<br><br>**Will:**(SLlA) (unrhyw ragenwau) Os nad ydych chi'n dod o Gymru ni fyddai ots gennych yr un fath. Os oes eisiau ar fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, yna pam nad awn amdani? | | | |
| | Pleidlais | **111 - PASIWYD** | 60<br>UMCA | 42<br>Diwylliant | 9 |
| **Unrhyw faterion eraill** | Wythnos bleidleisio'r etholiadau / Hanesion am newid, Citizens UK/ Cofnodi eich oriau o wirfoddoli / enwebiadau ar gyfer y Dathlu<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30/04/2025<br><br>**Bayanda: mae'n wythnos fyd eang yr wythnos hon - bydd y ffair fyd eang yfory yn yr ystafell fawr.** Hefyd bydd cwis byd eang ddydd Iau gyda llawer o fwyd. | | | | |

(SLlA) = Swyddogion Llawn Amser

SG = Swyddogion Gwirfoddol

SC = Swyddog Cyfadran

**Chwaraeon = Cynrychiolydd Chwaraeon**

**Cym = Cynrychiolydd Cymdeithasau**

**UMCA = Cynrychiolydd UMCA**

**CA = Cynrychiolydd Academaidd ar y Senedd**

**Aelod = Aelod o'r Undeb ond nid yn aelod o'r Senedd.**